

## Adran 1

# Crynodeb gweithredol

## Cyflwyniad

- 1.1 Hwn yw trydydd adolygiad Ofcom o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y DU. Caiff ei gynnal ar adeg bwysig wrth i farchnadoedd ein cyfryngau esblygu'n gyflym mewn ymateb i ddatblygiadau'r rhyngryd, sy'n newid pob agwedd ar ein bywydau bob dydd.
- 1.2 Mae'r Senedd yn ei gwneud yn ofynnol i ni gynnal yr adolygiadau hyn o bryd i'w gilydd gyda'r nod o sefydlu i ba raddau y mae sianeli teledu darlledu gwasanaeth cyhoeddus wedi cyflawni dibenion darlledu gwasanaeth cyhoeddus, yn unol â diffiniad Deddf Cyfathrebiadau 2003. Hefyd, mae'n ofynnol i ni adrodd gyda golwg ar gynnal a chryfhau darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol.
- 1.3 Ein prif gyfrifoldeb yw adolygu'r ffordd y mae'r system darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn darparu rhaglenni. Mae'r system darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn seiliedig ar gyfres o ymyriadau deddfwriaethol a rheoleiddio sy'n ddibynnol ar gefnogaeth barhaus y Senedd er mwyn sicrhau'r manteision economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac i ddinasyddion, sy'n deillio o'r system darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Mae'r ymyriadau hyn yn arwain at fanteision (fel amlygrwydd EPG a mynediad i sbectrwm) i rai sianeli teledu. Yn gyfnewid am hyn, mae'r sianeli hyn yn sicrhau bod rhaglenni o fath penodol y mae'r Senedd wedi penderfynu sydd er budd y cyhoedd (er enghraifft rhaglenni gwreiddiol sydd wedi cael eu gwneud yn y DU, rhaglenni newyddion a materion cyfoes) ar gael yn gyffredinol ac am ddim.
- 1.4 Swyddogaeth ganolog y system darlledu gwasanaeth cyhoeddus yw sicrhau bod newyddion diduedd o ansawdd uchel yn cael eu darparu ar lefel y DU gyfan, y gwledydd a'r rhanbarthau. Mae newyddion a ddarlledir yn dal i chwarae rôl bwysig o ran sicrhau lluosogrwydd ffynonellau newyddion yn y DU, i fod yn sail i'n trafodaethau cenedlaethol ac i'w cefnogi.
- 1.5 Mae'r sefydliadau darlledu gwasanaeth cyhoeddus (y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus) sy'n darparu'r sianeli darlledu cyhoeddus<sup>1</sup> yn cynnwys y BBC, Corfforaeth Channel 4 (C4C), ITV plc, STV Group plc, UTV Media plc, S4C a Channel Five ar hyn o bryd. Mae pob sianel yn gweithio o dan gylch gwaith gwahanol, a ddarperir gan sefydliadau â chanddynt wahanol fodolau o ran perchnogaeth a strwythurau cyllido. Er enghraifft, er bod holl sianeli teledu'r BBC yn rhai darlledu gwasanaeth cyhoeddus, nid yw'r un peth yn wir am C4C, ITV plc a Five.
- 1.6 Ni fyddai'n bosib adolygu'r system darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn llawn heb ystyried rôl a datblygiad y farchnad ehangach. Yn unol â hynny, rydym hefyd am ystyried rôl teledu aml-sianel, y sianeli portffolio darlledu gwasanaeth cyhoeddus masnachol (e.e. E4 ac ITV2) a chynnwys nad yw'n cael ei ddarlledu o ran cyflawni canlyniadau gwasanaeth cyhoeddus. Mae'r meysydd hyn yn dod yn fwyfwy pwysig wrth i deledu aml-sianel, yn benodol, ddarparu ecoleg gymysg, gref o ran darlledu yn

---

<sup>1</sup>Dyma'r sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus: BBC One, BBC Two, BBC Three, BBC Four, BBC News, CBBC, CBeebies, BBC Parliament, BBC HD services, ITV, STV, UTV, Channel 4, Five, S4C, BBC Alba

y DU. Hefyd, mae nifer o wasanaethau ar-lein yn darparu mwy a mwy o gynnwys ar-lein sy'n bodloni nifer o'r amcanion gwasanaeth cyhoeddus.

- 1.7 Mae'r system darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y DU hefyd yn helpu i gefnogi buddsoddi yn economi greadigol y DU. Mae hyn yn cynnwys buddsoddi'n uniongyrchol mewn rhaglenni a'u dosbarthu a buddsoddi anuniongyrchol drwy bartneriaethau â sefydliadau diwylliannol. Mae nifer o bartneriaethau creadigol nodedig wedi bod rhwng y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a'r sector diwylliannol ehangach, er enghraifft rhwng y BBC a'r Tŷ Opera Brenhinol, yn ogystal â chydweithio ar raglenni fel The History of the World in 100 Objects. Mae dulliau gweithredu o'r fath yn caniatáu i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ddarparu mwy drwy bartneriaethau strategol. Mae'r ymgynghoriad hwn yn nodi ein safbwyntiau cychwynol ac yn gofyn am farn bellach ynghylch sut mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn cefnogi'r economi greadigol ehangach.

## **Mae'r adolygiad hwn yn cael ei gynnal ar adeg pan mae marchnadoedd ein cyfryngau'n esblygu'n gyflym, ac yn cael eu datblygu yn sgil twf y rhyngwrwd**

- 1.1 Mae diwydiant cyfathrebu a chyfryngau'r DU wedi newid yn radical er 2008, o ganlyniad i gwblhau'r newid o ddarlledu analog i ddarlledu digidol, y cynnydd yn y nifer sy'n defnyddio rhyngwrwd band eang i wyllo teledu a'r nifer sy'n defnyddio dyfeisiau sydd wedi'u cysylltu a dyfeisiau symudol. Wrth i gysylltedd wella, mae'r rhyngwrwd wedi dod yn fwyfwy canolog i fywydau pobl, gan gynnwys o ran sut maent yn dewis ac yn gwyllo cynnwys teledu.
- 1.2 Mae hyn wedi arwain at lansio ystod eang o lwyfannau a gwasanaethau newydd, fel BBC iPlayer, BuzzFeed a Now TV, gan roi llawer mwy o ddewis i gynulleidfa oedd o ran beth maent am ei wyllo, a phryd a ble maent yn ei wyllo.
- 1.3 Mae'r rhyngwrwd hefyd wedi helpu i roi hwb i'r broses o globaleiddio marchnadoedd y cyfryngau. Yn ei dro, rydym wedi gweld cwmnïau mawr o dramor fel Netflix ac Amazon yn ymuno â marchnad y DU. Rydym hefyd yn gweld cwmnïau byd-eang fel Viacom, Discovery a Liberty Global yn prynu mwy a mwy o gwmnïau cyfryngau'r DU, gan gynnwys Channel 5 ac All3media.
- 1.4 Mae'r cyfleoedd a ddaeth yn sgil symud o ddarlledu analog i ddarlledu digidol wedi arwain at dwf yn y gwariant ar gynnwys newydd o'r DU gan y sector aml-sianel. Er bod darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn dal i gyfrif am y mwyafrif helaeth o'r buddsoddiadau mewn rhaglenni newydd, mae gan y sector aml-sianel rôl gynyddol, er bod hynny o sylfaen isel. Mae sianeli nad ydynt yn darlledu gwasanaeth cyhoeddus (sy'n cynnwys sianeli portffolio darlledu gwasanaeth cyhoeddus masnachol) bellach yn cyfrif am oddeutu 15% o werth holl raglenni gwreiddiol o'r DU nad ydynt yn rhai chwaraeon, ac sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf, ac maent hefyd yn gwneud cyfraniad hollbwysig i fuddsoddiadau mewn rhaglenni chwaraeon.
- 1.5 Hefyd, rydym wedi gweld llawer o brynu a chyfnerthu yn y sector cynhyrchu yn y DU. Heddiw, mae saith o'r deuddeg cwmni cynhyrchu annibynnol mwyaf yn y DU wedi'u hintegreiddio'n fertigol, gyda darlledwyr yn berchen ar gwmnïau sydd ar raddfa fyd-eang sylweddol. Hefyd, mae'r sector cynhyrchu annibynnol yn y DU wedi tyfu 3.4%<sup>2</sup> ar gyfartaledd bob blwyddyn er 2009, gan gynhyrchu £2.8bn mewn referniw yn 2013, yn bennaf o ganlyniad i gynnydd mewn referniw o dramor.

---

<sup>2</sup>Ffynhonnell:Cyfrifiad PACT Oliver &OhlbaumAssociates (data mewn termau real, ar brisiau 2013)

## Mae anghenion ac ymddygiad y gynulleidfa'n newid

- 1.1 Mae cynulleidfaoedd yn fwyfwy amrywiol, ac mae eu hanghenion a'u hymddygiad yn newid. Er gwaethaf hyn, mae patrymau gwyllo teledu wedi newid yn llawer iawn arafach na'r disgwyl – mae'r rhan fwyaf yn dal i wyllo sianeli byw/llinol ac mae'r sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn dal i gyfrif am dros hanner yr holl wyllo.
- 1.2 Mae gwylwyr yn dal i werthfawrogi dibenion darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn fawr ac yn cefnogi nodweddion darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Fodd bynnag, yn ôl ein gwaith ymchwil, mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn colli rhywfaint o'r hyn sy'n eu gwneud yn unigryw, mewn byd lle mae mwy a mwy o ddewis. Mae hyn yn arbennig o wir ymhlith y defnyddwyr iau a'r rhai sy'n deall technoleg yn dda, nad ydynt bellach, mae'n ymddangos, yn gwahaniaethu rhwng sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus a sianeli nad ydynt yn darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Maent yn credu bod ystod eang o sefydliadau'n cynhyrchu cynnwys sy'n cyflawni dibenion a nodweddion darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Yn hytrach na chynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus neu gynnwys nad yw'n darlledu gwasanaeth cyhoeddus, maent yn gwahaniaethu rhwng cynnwys "da" a "gwael".
- 1.3 Hefyd, yn arbennig i bobl ifanc, mae sianeli portffolio darlledu gwasanaeth cyhoeddus, nad ydynt yn cael eu pennu'n gyfreithiol fel sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus, yn cael eu hystyried yr un mor bwysig â'r prif sianeli. I rai, mae'r gallu i gael mynediad at gynnwys pryd bynnag a ble bynnag, ac ar unrhyw ddyfais, yn fwyfwy o ddisgwyliad yn hytrach nag awydd y dyddiau hyn.
- 1.4 Mae'r bwlch oedran rhwng cynulleidfaoedd iau a hŷn yn ymddangos fel petai'n mynd yn fwy hefyd, gyda gwahaniaethau mawr o ran barn, agwedd a thueddiadau mewn perthynas â darlledu gwasanaeth cyhoeddus a theledu yn fwy cyffredinol. Er bod cynulleidfaoedd iau bob amser wedi gwyllo llai o deledu na chynulleidfaoedd hŷn, mae ein hymchwil cynulleidfaoedd yn awgrymu bod y genhedlaeth gysylltiedig yn gwyllo llai a llai o deledu a'u bod o bosib, yn dilyn yr arferion hyn wrth iddynt fynd yn hŷn.
- 1.5 Mae pobl yn dal i ddymuno gweld cyfuniad o'u hoff raglenni sydd wedi bod yn cael eu darlledu ers amser (fel yr operâu sebon a'r rhaglenni adloniant poblogaidd) a rhaglenni gwreiddiol ac arloesol. Un o fanteision y system darlledu gwasanaeth cyhoeddus yw ei bod yn galluogi ac yn annog y broses o ddarparu rhaglenni creadigol ac arloesol. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos y BBC, sy'n gallu cymryd risgiau oherwydd ei fod yn sicr o gael incwm o ffi'r drwydded, a Channel 4, sydd â gofynion penodol i fod yn arloesol, yn arbrofol ac yn greadigol.
- 1.6 Mae ein hymchwil cynulleidfaoedd yn awgrymu, wrth ystyried cydbwysedd y rhaglenni, fod nifer y bobl sy'n dymuno gweld mwy o gynnwys gwreiddiol ac arloesol wedi codi'n gyflym yn y blynyddoedd diweddar. Mae'n ymddangos bod pryder yn dod i'r amlwg ymhlith cynulleidfaoedd, ynghylch lefelau cynnwys gwreiddiol ac arloesol sy'n cael eu cynhyrchu o'i gymharu â rhaglenni a fformatau mwy traddodiadol. Mae hyn yn awgrymu bod pobl yn teimlo bod darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn dyblygu syniadau a fformatau rhaglenni llwyddiannus, o bosib ar draul mwy o raglenni gwreiddiol, arloesol a heriol.
- 1.7 Mae poblogrwydd y rhyngrwyd fel ffynhonnell ar gyfer pob math o newyddion wedi codi hefyd; mae cyfran y boblogaeth oedolion sy'n honni eu bod yn defnyddio'r rhyngrwyd i gael 'newyddion am y byd' a 'newyddion am y DU' wedi treblu bron iawn ers ein hadolygiad diwethaf. Mae pobl iau dair gwaith yn fwy tebygol na phobl hŷn o gael eu newyddion ar-lein.

- 1.8 Rydym hefyd wedi cynnal dadansoddiad cychwynnol o bedair adran ddemograffig bellach: ethnigrwydd, anabledd, rhyw a grŵp economaidd-gymdeithasol. Nid yw ein dadansoddiad cychwynnol yn awgrymu bod problemau sylfaenol â pherfformiad y system darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar hyn o bryd, ond mae'n codi cwestiynau sy'n galw am ymchwilio pellach yn ystod ail gam ein gwaith.

## **Mae'r system darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn dal i fod yn gref, ond cafwyd gostyngiad yn y gwariant ar raglenni, yr allbwn a'r gwylio**

- 1.1 Mae ein hadroddiad yn defnyddio cyfres o fetrigau i fesur perfformiad y system darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Er nad yw unrhyw un o'r metrigau hyn, ar eu pen eu hunain, yn berffaith ar gyfer mesur a yw nodau darlledu gwasanaeth cyhoeddus wedi'u cyflawni, gyda'i gilydd maent yn ein galluogi ni i farnu i ba raddau y mae'r system hon yn cyflawni'r dibenion a'r nodweddion.
- 1.2 Prif ganfyddiadau'r adroddiad hwn yng nghyswllt perfformiad y system darlledu gwasanaeth cyhoeddus yw:
- 1.2.1 **Refeniw y sector:** mae ffi'r drwydded wedi gostwng mewn termau real, ond mae refeniw o sectorau eraill, fel hysbysebu, wedi gwella ar ôl y dirwasgiad, ac mae'n dal i gynyddu, mewn termau nominal o leiaf. Mae refeniw ar-lein yn tyfu'n gyflym hefyd.
- 1.2.2 **Allbwn:** Mae cyfanswm cyffredinol rhaglenni newydd yn y DU yn dal i fod yn uchel mewn termau absoliwt. Er bod gostyngiad cyffredinol o 5% wedi bod er 2008, mae nifer yr oriau newydd yn ystod oriau brig wedi cynyddu mewn gwirionedd, gyda gostyngiad yn nifer y rhaglenni y tu allan i oriau brig.
- 1.2.3 **Gwariant:** Mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn dal i gyfrif am swmp y buddsoddi mewn cynnwys o'r DU sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf ac nad yw'n chwaraeon; oddeutu 85% yn 2013. Ond gwelwyd gostyngiad sylweddol mewn gwariant ar yr holl raglenni ac mae buddsoddiadau mewn rhaglenni gwreiddiol, newydd o'r DU, i'w dangos am y tro cyntaf wedi gostwng yn sylweddol, gyda gostyngiad o 17.3% yng ngwariant darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar raglenni mewn termau real. Mae gwariant ar raglenni a brynir ac ailddarllediadau wedi gostwng hefyd. Fodd bynnag, fel rydym yn ei nodi isod, mae bodlonrwydd y gynulleidfa'n dal i fod yn uchel, ac mae nifer yr oriau o raglenni newydd yn ystod yr oriau brig wedi cynyddu, felly mae'r cwestiwn yn codi a yw'r gostyngiad mewn gwariant rydym wedi'i weld hyd yma wedi cael effaith ar yr amrywiaeth a'r ansawdd ar y sgrin. Mae sianeli nad ydynt yn darlledu gwasanaeth cyhoeddus (y sianeli portffolio darlledu gwasanaeth cyhoeddus masnachol ac aml-sianel gyda'i gilydd) wedi buddsoddi 43% yn fwy mewn rhaglenni gwreiddiol i'w dangos am y tro cyntaf, nad ydynt yn rhaglenni chwaraeon er 2008, ac mae hyn yn cyfrif am 15% o'r holl fuddsoddiadau nad ydynt yn ymwneud â chwaraeon, mewn rhaglenni i'w dangos am y tro cyntaf yn 2013, i fyny o 9% yn 2008.
- 1.2.4 **Gwylio:** Mae'r gwylio cyffredinol ar y sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus wedi gostwng, ond o sail uchel iawn. Gyda'i gilydd, mae'r sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn dal i gyfrif am dros hanner yr holl wyllo ar y teledu yn y DU. Roedd cyfran gwylio sianeli portffolio

darlledu gwasanaeth cyhoeddus masnachol yn 15.8% yn 2013, i fyny o 10.2% yn 2008. Felly, mae'n ymddangos bod y sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus wedi colli'r rhan fwyaf o'u cyfran oherwydd rhagor o wyllo ar y sianeli portffolio darlledu gwasanaeth cyhoeddus.

- 1.2.5 **Bodlonrwydd cyffredinol y gynulleidfa:** Mae bodlonrwydd cyffredinol y gynulleidfa â'r system darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn dal i fod yn uchel, ac mae pobl yn credu bod y system darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn dal i gyflawni'r dibenion a'r nodweddion, at ei gilydd.
- 1.2.6 **Allbwn newyddion:** Roedd gwariant y sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar newyddion cenedlaethol a rhyngwladol yn £224m yn 2013, i lawr 11% o £253m yn 2008. Roedd yr allbwn yn gyson er gwaethaf gostyngiad mewn cyllid, gyda chynnydd bychan yn nifer yr oriau'n gyffredinol a chynnydd o 2% yn yr allbwn a oedd yn cael ei ddangos am y tro cyntaf. Mae'r oriau o newyddion cenedlaethol a rhyngwladol sy'n cael eu gwyllo wedi bod yn weddol gyson hefyd. Ond er bod cyfran o holl newyddion BBC One wedi tyfu, mae cyfran newyddion ITV a Channel 4 wedi gostwng yn sylweddol.

## **Nid yw llai o wariant wedi effeithio ar fodlonrwydd cyffredinol y gynulleidfa, ond mae ein dadansoddiad yn awgrymu rhai meysydd sy'n achosi pryder.**

- 1.3 Nid yw llai o wariant ac allbwn wedi effeithio ar fodlonrwydd y gynulleidfa, sy'n awgrymu bod y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn dal i ddarparu rhaglenni y mae cynulleidfaoedd yn eu gwerthfawrogi'n fawr. Mae'n bosib bod mwy o foddhad, yn rhannol o ganlyniad i effaith ddigolledu ffactorau eraill. Mae ansawdd manylder uchel y llun, y gallu i recordio a symud amser drwy ddefnyddio DVR, a'r ffaith bod gwasanaethau ar alwad ar gael yn eang ar amrywiaeth o ddyfeisiau oll yn caniatáu i wylwyr fwynhau teledu o ansawdd uwch mewn ffordd llawer mwy cyfleus a hyblyg.
- 1.4 Mae'n bosib bod ffactorau eraill, fel y cynnydd yng nghyllid trydydd parti a gwell effeithlonrwydd (a'r ffordd rydym wedi addasu ar gyfer chwyddiant) wedi gwrthbwysu yn rhannol, y lefelau is o fuddsoddi uniongyrchol gan ddarlledwyr mewn rhaglenni newydd yn y DU.
- 1.5 Er bod y darlun cyffredinol yn un cadarnhaol, ar ôl dadansoddi'r data hanesyddol, nodwyd nifer o feysydd sy'n peri pryder ac y dylid ymchwilio iddynt ymhellach. Yn benodol:
  - 1.5.1 **Buddsoddi mewn cynnwys:** Byddai'r gostyngiad sylweddol mewn gwariant ar yr holl raglenni a buddsoddiadau mewn rhaglenni newydd o'r DU i'w dangos am y tro cyntaf, a'r gostyngiad o 17.3% mewn termau real mewn gwariant ar raglenni gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn bryder sylweddol petai'r duedd honno'n parhau ac yn arwain at ostyngiad amlwg yn swmp, amrywiaeth neu ansawdd yr allbwn.
  - 1.5.2 **Adlewyrchu gwahanol ddiwylliannau:** Mae yna gwestiwn ynghylch i ba raddau y mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn bodloni anghenion amrywiaeth o gynulleidfaoedd. Mae ein traciwr darparu gwasanaeth cyhoeddus yn dangos mai dim ond 46% o bobl ledled y DU sy'n fodlon bod y system darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn darparu rhaglenni sy'n dangos gwahanol fathau o ddiwylliannau yn y DU.

- 1.5.3 **Cyflwyno genres:** Er bod ystod eang ac amrywiaeth o raglenni ar gael ym mhob genre, gwelwyd gostyngiad sylweddol yn rhai o'r prif genres sy'n cael eu darparu. Er enghraifft, mae gwariant ar raglenni i'w dangos am y tro cyntaf, mewn termau real, gan ddarllledwyr gwasanaeth cyhoeddus fel a ganlyn: drama i lawr 34%, materion cyfoes i lawr 17%, plant i lawr 15% a rhaglenni'r gwledydd a'r rhanbarthau i lawr 26%. Yn groes i hynny, cynyddodd y gwariant ar raglenni adloniant i'w dangos am y tro cyntaf 6%.

## **Mae yna rai gwahaniaethau yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon ac mae gan y marchnadoedd hynny nodweddion gwahanol i'r DU gyfan**

- 1.1 Mae nodweddion marchnadoedd y cyfryngau ym mhob un o'r gwledydd yn wahanol iawn. Yng nghyd-destun trafodaethau am ddatganoli, mae'n bwysig iawn deall y gwahaniaeth rhwng pob un o'r gwledydd, ac mae'r adroddiad hwn yn nodi'r gwahaniaethau hynny'n fanwl.
- 1.2 Mae ein hymchwil cynulleidfaoedd yn awgrymu bod cynulleidfaoedd hŷn yn y gwledydd yn teimlo y gellid gwneud mwy i sicrhau bod rhaglenni'n adlewyrchu eu hunaniaeth leol a chenedlaethol. Mae hyn yn wahanol i oedolion ifanc yn y gwledydd sy'n dweud ei bod yn bwysicach i sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus gynrychioli amrywiaeth ar lefel gwahanol grwpiau a chymunedau ledled y DU, fel ethnigrwydd, crefydd, grwpiau economaidd-gymdeithasol a chyfeiriadedd rhywiol penodol. Wrth i sefyllfa gyfansoddiadol y DU esblygu mae'n bosib y bydd anghenion y gynulleidfa'n newid dros amser hefyd.
- 1.3 O ran allbwn, mae swmp y cynrychiadau rhwydwaith ar draws y DU sy'n cael eu gwneud yn y gwledydd wedi bod yn codi er 2008. Mae cynrychiadau yn Llundain wedi gostwng: yn 2013, am y tro cyntaf, roedd llai na hanner (49.4%) yr oriau o raglenni rhwydwaith a oedd yn cael eu dangos am y tro cyntaf wedi cael eu cynhyrchu o fewn yr M25. Fodd bynnag, mae buddsoddiad mewn newyddion y gwledydd a'r rhanbarthau a'r oriau allbwn wedi gostwng er 2008, er bod bodlonrwydd y gynulleidfa wedi gwella.

## **Mae rhagamcanu tueddiadau presennol y farchnad yn awgrymu llwybr esblygiadol ar gyfer darlledu gwasanaeth cyhoeddus**

- 1.1 At ddibenion yr adolygiad hwn, rydym wedi rhagamcanu tueddiadau presennol y farchnad, ac wedi defnyddio ein dadansoddiad ein hunain i'w ategu, er mwyn deall llwybr esblygiadol datblygiadau yn y farchnad, a chymryd na fydd unrhyw newidiadau strwythurol mawr. Mae'r dull gweithredu hwn yn awgrymu y byddwn, o bosib, yn gweld esblygiad cyson. Mae'r tybiaethau eraill yn cynnwys: bod y BBC yn parhau i fod yn gonglfaen i ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus, ac yn cael ei gyllido er mwyn darparu allbwn ar lefel debyg i heddiw, a bod y sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus sy'n cael eu cyllido'n fasnachol, sef ITV, STV, UTV, Channel 4 a Channel Five, yn parhau i weithredu o dan eu trwyddedau, sydd newydd gael eu hadnewyddu am ddeng mlynedd.
- 1.2 Mae'r llwybr hwn ar gyfer datblygu'r farchnad yn awgrymu y bydd gwyllo darlledu gwasanaeth cyhoeddus (a theledu'n ehangach) yn aros yn gymharol uchel, ac o ganlyniad efallai y bydd hysbysebu ar y teledu yn parhau i fod ar lefelau sy'n cymharu'n fras â'r hyn y mae heddiw.

- 1.3 Mewn sefyllfa o'r fath dylai'r system darlledu gwasanaeth cyhoeddus allu parhau i ddarparu'r un lefel o allbwn, neu lefelau tebyg, â'r hyn a ddarperir heddiw. Felly, mae'n bosib y bydd bodlonrwydd cadarnhaol y gynulleidfa â'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, fel rydym wedi'i brofi er 2008, yn parhau i fod yr un fath. Bydd gofyn monitro hyn yn ofalus, oherwydd efallai y bydd cynulleidfaoedd yn sylwi ar unrhyw ostyngiad parhaus mewn buddsoddiadau termau real mewn rhaglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf, yn arbennig os bydd gostyngiad o'r fath yn arwain at lai o amrywiaeth neu ansawdd is o ran y rhaglenni a ddarperir yn gyffredinol mewn genres sy'n fwy bregus yn economaidd.
- 1.4 Ymddengys y byddai esblygiad cyson o'r fath yn cyfyngu ar i ba raddau y gallai'r system darlledu gwasanaeth cyhoeddus wella lefelau presennol y ddarpariaeth neu lenwi unrhyw fylchau sydd wedi dod i'r amlwg yn ystod y blynyddoedd diwethaf, heb i'r system gael ei chryfhau i gefnogi hynny.
- 1.5 Hyd yn oed os ydym yn gweld esblygiad cyson yn unig, mae'n bosib bod y newidiadau rydym eisoes yn eu gweld yn y farchnad, fel cynnydd ychwanegol yn y gystadleuaeth am wylwyr ac effaith datblygiadau technolegol fel DVRs, eisoes yn newid y cymhellion i wahanol sefydliadau fuddsoddi mewn genres darlledu gwasanaeth cyhoeddus allweddol.
- 1.6 Her arall i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yw cost gynyddol dosbarthu mewn amgylchedd parhaol, ar-lein a symudol. Wrth i gynulleidfaoedd alw am fwy a mwy o'u gwasanaethau ar sawl llwyfan, ar alwad ac ar ddyfeisiau symudol, mae perygl mai dim ond drwy gwtogi ar fuddsoddiadau mewn cynnwys y gellir talu am y costau dosbarthu hyn. Gallai hyn fod yn her sylweddol i'r system darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol. Yn amlwg, os bydd cynnydd yn y galw gan dechnolegau newydd, bydd yn fwy fyth o her. Mae hyn yn cael ei wrthbwyo gan y ffaith fod ddarpariaeth ar-lein hefyd yn creu cyfleoedd refeniw newydd, yn arbennig i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol.

## **Mae yna nifer o ddatblygiadau yn y farchnad, a allai, un ai yn unigol neu gyda'i gilydd, arwain at ragor o newidiadau a heriau sy'n gweddnewid**

- 1.1 Fodd bynnag, mae yna nifer o ddatblygiadau yn y farchnad a allai, un ai yn unigol neu gyda'i gilydd, arwain at ragor o newidiadau sy'n gweddnewid. Efallai y bydd hyn, yn ei dro, yn effeithio ar allu'r system darlledu gwasanaeth cyhoeddus i gyflawni'r canlyniadau a geisir gan y Senedd. Wrth gwrs, efallai y bydd rhai o'r sefyllfaoedd hyn yn arwain at gyfleoedd newydd i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus hefyd.
- 1.2 Y prif ffactorau risg eraill rydym wedi'u dynodi a allai arwain at ragor o newid sy'n gweddnewid yw:
- 1.2.1 **Symud yn gynt i wylio ar alwad.** Gallai symud yn gynt o wylio teledu byw/llinol i wylio ar alwad leihau cyrhaeddiad ac effaith darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, os ydynt yn colli cyfran o'r gwyllo cyffredinol o ganlyniad i hynny. Fel arall, os bydd y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn dal eu gafael ar y gyfran drwy wylio ar alwad, gallai newid yn gynt helpu darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i fodloni anghenion y gynulleidfa'n well mewn gwirionedd, er bod hynny yng nghyswllt gwasanaethau nad ydynt yn wasanaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus, drwy well targedu, personoli, mwy o hwylustod a gwell ymgysylltu. Yn yr un modd, gallai gwell

targeddu a mesur hysbysebu ar raglenni ar alwad helpu i wella elw hysbysebu cymaint ag y mae'n bygwth modelau busnes teledu masnachol.

- 1.2.2 **Rhagor o gwmnïau newydd ym marchnad y DU.** Gall cwmnïau newydd yn y farchnad deledu, fel gwasanaethau fideo drwy fand eang ac ar-lein yn unig, leihau refeniw a lefelau gwyllo darlledwyr traddodiadol fwyfwy. Mewn marchnad cyfryngau sy'n dod yn fwyfwy byd-eang, mae'n bosib nad yw sefydliadau darlledu gwasanaeth cyhoeddus y DU yn unig yn ddigon mawr i gystadlu am wylwyr a refeniw. Neu, mae'n bosib y gall cwmnïau newydd helpu i ysgogi cystadleuaeth, cyfrannu at ddibenion a nodweddion darlledu gwasanaeth cyhoeddus, ac annog darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i gystadlu drwy gyfrwng rhaglenni o well ansawdd a mwy o fuddsoddi.
  - 1.2.3 **Darnio cynulleidfaoedd yn gynt.** Gall newidiadau demograffig yn y DU, yn arbennig y gwahaniaeth rhwng cynulleidfaoedd iau a hŷn, fod yn heriol i'r system darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Byddai methu ag adlewyrchu cymdeithas fwy amrywiol arwain at gwmp yn y gwyllo ac mewn bodlonrwydd. Ar yr un pryd, gall y defnydd cynyddol o wasanaethau ar alwad ac ar-lein ganiatáu targeddu grwpiau cynulleidfa penodol yn well gyda chynnwys gwasanaeth cyhoeddus sy'n bodloni eu hanghenion yn well.
  - 1.2.4 **Bygythiadau i brif ffynonellau cyllido.** Mae dwy brif ffynhonnell cyllido ar gyfer y system darlledu gwasanaeth cyhoeddus: ffi'r drwydded y BBC a hysbysebu ar y teledu. Gallai unrhyw newid sylweddol i'r ddwy brif ffynhonnell incwm hyn gael effaith ar y system darlledu gwasanaeth cyhoeddus, os nad yw darlledwyr yn gallu cynnal swmp, amrywiaeth neu ansawdd yr allbwn drwy sicrhau rhagor o effeithlonrwydd neu drwy greu ffynonellau refeniw newydd.
  - 1.2.5 **Chwyddiant sylweddol mewn costau.** Unrhyw chwyddiant sylweddol mewn costau gwaelodol cynhyrchu neu ddsbarthu rhaglenni teledu arwain at ostyngiad o ran amrywiaeth, swmp a/neu ansawdd y rhaglenni darlledu gwasanaeth cyhoeddus, os nad yw'r lefelau cyllido'n dal i fyny gyda hyn. Os bydd lefelau cyllido'n dal i fyny gyda chost chwyddiant, yna wrth gwrs, efallai y bydd hynny'n arwain at raglenni o ansawdd uwch.
- 1.3 Os bydd unrhyw un o'r risgiau uchod yn dod i'r amlwg, neu yn wir, os bydd unrhyw newidiadau eraill yn cael effaith negyddol ar y system darlledu gwasanaeth cyhoeddus, efallai y bydd yn anoddach gwarantu bod gwasanaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus a genres penodol darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn cael eu hariannu'n dda, eu bod ar gael yn helaeth a bod modd dod o hyd iddynt yn rhwydd. Gallai hyn arwain at ostyngiad sylweddol yn y rhaglenni sy'n edrych ar gymdeithas a diwylliant y DU ac sy'n pwysu a mesur y materion hyn.

## **Opsiynau ar gyfer cynnal a chryfhau'r system**

- 1.1 Mae'n ymddangos nad oes digon o le ar gyfer twf buddsoddiadau darlledu gwasanaeth cyhoeddus, ac oherwydd y posibilrwydd y byddai'r risgiau a amlinellwyd uchod yn cael effaith negyddol ar y system darlledu gwasanaeth cyhoeddus, mae'n bwysig ystyried beth y gellid ei wneud petai unrhyw rai o'r pwyntiau uchod yn dod i'r amlwg. Rydym wedi dynodi pedwar prif faes i'w hystyried ymhellach yn yr adolygiad hwn:
  - 1.1.1 **Moderneiddio'r rheolau argaeledd a dod o hyd i gynnwys:** os yw'r Senedd yn dal i ddymuno sicrhau bod cynnwys darlledu gwasanaeth



cyhoeddus yn cyflawni o ran effaith a chyrrhaeddiad cyffredinol mewn amgylchedd cysylltiedig, efallai y bydd yn rhaid ad-drefnu'r rheoliadau presennol sy'n ymwneud ag amlygrwydd a chludo a diffinio'r hyn a olygir gan gyffredinolrwydd mewn amgylchedd cysylltiedig mwy cymhleth. Byddai deall yr effaith ar gostau dosbarthu a sut mae hynny'n effeithio ar fuddsoddi mewn cynnwys yn rhan o waith dadansoddi o'r fath. Byddai ystyriaeth o'r fath yn gyd-destun pwysig hefyd yn y drafodaeth bresennol am ailddarlledu.

- 1.1.2 **Rhoi mwy o hyblygrwydd i sefydliadau:** Wrth i'r gwahaniaeth rhwng sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus a gwasanaethau eraill leihau, efallai y bydd angen mwy o hyblygrwydd ar sefydliadau darlledu gwasanaeth cyhoeddus o ran sut maent yn cyflwyno cynnwys gwasanaeth cyhoeddus, gan gynnwys ar-lein, ar alwad ac ar ddyfeisiau symudol. Gellid defnyddio dull gweithredu o'r fath ar gyfer pob sefydliad darlledu gwasanaeth cyhoeddus neu is-set yn unig, gan gydnabod y gwahanol swyddogaethau sydd gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn y system yn gyffredinol.
- 1.1.3 **Creu cydbwysedd yn y berthynas rhwng darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a'r sector cynhyrchu:** Mewn sawl ffordd, mae'r berthynas rhwng y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a'r sector cynhyrchu'n ategu ei gilydd. Ond wrth ystyried newidiadau i strwythur y sector cynhyrchu, mae'n briodol gofyn a oes angen newid yr ymyriadau rheoleiddio sy'n dylanwadu ar y berthynas rhwng darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a'r sector cynhyrchu annibynnol. Mae'n debyg y bydd yn rhaid profi unrhyw newid yn erbyn nifer o gwestiynau, gan gynnwys: a fydd yn rhoi hwb i fuddsoddiadau mewn cynnwys o'r DU, sut gallai wella'r broses o gyflawni'r dibenion a'r nodweddion ac a oes modd cyflawni hyn heb danseilio llwyddiant y sector cynhyrchu annibynnol yn y DU ar hyn o bryd?
- 1.1.4 **Ystyried ffynonellau cyllido ychwanegol:** Efallai na fydd y risgiau rydym wedi'u nodi'n cael eu gwrthbwysu'n llwyr gan yr opsiynau uchod. Yn yr achos hwn, er mwyn cynnal a chryfhau'r broses o gyflawni'r dibenion a'r nodweddion, efallai y byddai'n ddymunol ystyried opsiynau eraill er mwyn cynyddu'r cyllid uniongyrchol sydd ar gael i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Gallai hyn gynnwys opsiynau sy'n cael eu trafod ar hyn o bryd, er enghraifft ffioedd aildarlledu, yn ogystal â meysydd y mae Ofcom a'r Llywodraeth wedi'u hystyried yn y gorffennol, fel y posibilrwydd o lacio rheolau hysbysebu ar y teledu, ystyried manteision treth newydd i annog buddsoddiadau, trethi'r diwydiant a threfniadau hawlfraint neu sefydlu cwotâu newydd i sicrhau bod unrhyw genres sydd mewn risg yn cael eu darparu.

## Y camau nesaf

- 1.1 Rydym nawr yn ceisio barn am y canfyddiadau cychwynnol hyn. Bydd yr ymgynghoriad yn para tan 26 Chwefror 2015. Byddwn yn ystyried yr ymatebion a ddaw i law ac yn cyhoeddi datganiad terfynol yn ystod haf 2015.